# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Breakaway Short Stay Service**

**Pen-y-bont ar Ogwr**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Breakaway Short Stay Service

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 18 Ebrill 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Gwasanaeth arhosiad byr Awdurdod Lleol yw Breakaway, sy'n cynnig arosiadau wedi'u trefnu ac arosiadau brys. Hefyd, mae tîm rheoli'r gwasanaeth bellach yn gweithio'n agosach gyda gwasanaethau plant er mwyn gwella'r broses o bontio gofal byrdymor a chymorth i bobl ifanc. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i gynnal eu trefn arferol yn ystod eu harhosiad ac yn eu hannog i ddweud wrth y staff gofal sut yr hoffent dreulio eu harhosiad yno. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, yn gyfredol ac yn canolbwyntio ar ymgynghori â'r person a'i deulu am yr hyn a aeth yn dda yn ystod yr arhosiad a'r hyn y gellid ei wella. Mae tîm o staff gofal sefydlog a brwdfrydig ar waith, sy'n cael ei arwain yn dda gan dîm rheoli rhagweithiol a gwybodus. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ac yn cael eu goruchwylio i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn hyderus yn eu rolau. Mae'r cyfleusterau a'r cyfarpar yn ddiogel i'w defnyddio. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn monitro ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir, a datblygiad y gwasanaeth, yn barhaus.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hannibyniaeth, gwneud penderfyniadau a chynnal rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd yn ystod eu harhosiad yn Breakaway. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i ddilyn eu trefn arferol yn ystod yr wythnos drwy ddefnyddio gwasanaeth dydd, ac maent yn cynnal teithiau allan, gweithgareddau a nosweithiau tecawê ar y penwythnos. Gofynnir i'r bobl beth yr hoffent ei wneud, a'r hyn yr hoffent ei gyflawni, yn ystod pob arhosiad. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd frwdfrydig, gynnes a chyfeillgar. Ymgynghorir â'r bobl a'u teuluoedd cyn arhosiad person er mwyn nodi unrhyw newid i'w anghenion neu ddewisiadau, a gofynnir am adborth cyffredinol yn rheolaidd drwy holiaduron monitro ansawdd. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr ar gael i drafod unrhyw faterion, ac mae proses gwyno ffurfiol ar waith os oes angen.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed neu gamdriniaeth posibl. Mae cynlluniau personol y bobl yn cynnwys asesiadau risg, sy'n nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch yr unigolyn neu ddiogelwch eraill. Caiff pob digwyddiad ei gofnodi, ac mae'r tîm rheoli yn gymwys i gyfeirio'r digwyddiadau hyn at dîm diogelu'r Awdurdod Lleol os oes angen. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu a sut i wneud hynny. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu ac mae polisi diogelu ar waith i gynnig arweiniad lle bo angen.

Mae'r amgylchedd yn cefnogi llesiant y bobl. Tŷ domestig wedi'i addasu yw Breakaway, sy'n darparu llety i bobl ag anabledd dysgu ac anabledd corfforol. Ar hyn o bryd, mae teclynnau codi wedi'u gosod ar drac yn nwy o'r chwe ystafell wely er mwyn symud y bobl o un lle i'r llall yn yr ystafell wely a'r ystafell ymolchi ensuite. Mae estyniad yn cael ei gwblhau i greu trydedd ystafell wely ar y llawr gwaelod a fydd yn cynnwys ystafell ymolchi ensuite a theclyn codi. Ceir lolfa gymunedol a chegin/ardal fwyta ac ardal awyr agored hygyrch a diogel.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl fod yn hyderus bod y gweithwyr cymorth yn dilyn cynllun cywir a chyfredol o'r ffordd y dymunant i'w hanghenion gofal gael eu diwallu. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn rhoi trosolwg cyfannol o'r hyn sydd ei angen ar y bobl a'r hyn y maent am ei gael yn ystod eu harhosiad. Maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a chanllawiau gan y tîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â gofal y bobl. Ymgynghorir â'r bobl a'u teuluoedd am unrhyw newid i anghenion neu ddewisiadau cyn unrhyw arhosiad newydd. Mae'r asesiadau risg yn nodi risgiau i ddiogelwch person neu ddiogelwch eraill ac yn cynnwys manylion am unrhyw ymyriad sydd ei angen i reoli'r risgiau hynny. Mae'r staff gofal yn brofiadol o ran dod i ddeall dewisiadau'r bobl yn gyflym os nad ydynt wedi aros yn y gwasanaeth o'r blaen.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Mae gan aelodau'r tîm rheoli gysylltiadau da â'u cydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau neu newidiadau o ran anghenion gofal a chymorth. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr proffesiynol fel nyrsys anableddau dysgu, therapyddion galwedigaethol neu therapyddion lleferydd ac iaith, a chaiff eu canllawiau a'u cynlluniau triniaeth eu hymgorffori yng nghynlluniau cymorth y bobl.  Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant penodol ar ymyriadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, fel tiwbiau bwydo endosgopig, sydd eu hangen ar bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'r bobl yn dod â'r swm priodol o feddyginiaeth o gartref ar gyfer eu harhosiad, a chaiff y feddyginiaeth hon ei storio'n ddiogel yn y gwasanaeth. Caiff meddyginiaeth ei rhoi fel y'i rhagnodwyd a'i chofnodi'n gywir. Mae polisi meddyginiaeth ar waith fel canllaw i'r staff gofal os oes angen. Mae pob gweithiwr cymorth wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar feddyginiaeth.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion rheoli heintiau da. Caiff y bobl eu hannog i gadw eu hystafelloedd yn lân ac yn daclus yn ystod eu harhosiad. Mae'r staff gofal yn cwblhau gan y staff tasgau domestig a golchi dillad. Mae'r bobl sy'n aros yno am gyfnodau seibiant byr yn mynd â'u dillad adref i'w golchi. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y cartref yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Yn gynharach eleni, cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd arolygiad yn y gwasanaeth, a nododd feysydd i'w gwella. Trafodwyd yr adborth hwn er mwyn sicrhau nad oedd natur ddomestig y gwasanaeth yn cael ei cholli a bod y bobl a oedd yn aros yn y gwasanaeth yn gallu defnyddio'r gegin yn annibynnol o hyd lle y bo'n briodol. Mae'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r argymhellion eraill a bydd yn cael ei arolygu eto er mwyn pennu sgôr newydd.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth i'r bobl mewn amgylchedd sy'n eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae estyniad yn cael ei adeiladu i greu trydedd ystafell wely ar y llawr gwaelod a fydd yn cynnwys ystafell ymolchi ensuite a theclyn codi. Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl ag anableddau corfforol i ddefnyddio'r gwasanaeth yr un pryd. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno mewn ffordd niwtral ond mae ymdeimlad cartrefol yn yr ardaloedd cymunedol ac ardaloedd personol y bobl. Mae'r bobl yn defnyddio'r lolfa gymunedol a'r gegin/ystafell fwyta yn rheolaidd i gymdeithasu â'r bobl eraill sy'n aros yn y cartref yr un pryd â nhw. Ceir gardd hygyrch, a gaiff ei defnyddio pan fydd y tywydd yn braf.

Caiff camau eu cymryd i leihau risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Gwelsom dystiolaeth o amserlen dreigl o waith gwasanaethu a gwiriadau ar gyfer cyfleusterau fel teclynnau codi a chyfarpar, a chyfleustodau fel diogelwch nwy, er mwyn sicrhau bod popeth yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cynnal yn rheolaidd. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth weithwyr cynnal a chadw sy'n ymweld â'r cartref i gwblhau tasgau bach a chontract gyda chwmnïau allanol pan fo angen. Mae'r cartref yn ddiogel rhag ymwelwyr heb awdurdod. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel, a chaiff dogfennau cyfrinachol eu cadw mewn swyddfa a gaiff ei chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae lefelau digonol o staff gofal sy'n dangos brwdfrydedd ac agwedd dda i ddiwallu anghenion y bobl y mae angen gofal byrdymor arnynt yn Breakaway. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, roedd rheolwr dros dro yn gweithio yn y gwasanaeth ac roedd y broses ailstrwythuro wedi arwain at dîm o staff ansefydlog. Fodd bynnag, mae tîm sefydlog o staff bellach ar waith ac mae rheolwr parhaol wedi'i benodi. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr wedi cael adborth cadarnhaol gan y staff gofal am fod yn ymarferol, yn gefnogol ac yn rhagweithiol yn eu rolau. Caiff y rotas staff eu llunio yn unol â'r ceisiadau am arosiadau er mwyn sicrhau bod digon o staff gofal ar gael i ddiwallu anghenion y bobl bob amser.

Caiff y staff eu recriwtio, eu hyfforddi a'u cefnogi'n addas yn eu rolau. Caiff gwybodaeth recriwtio ei chadw gan adran Adnoddau Dynol darparwr y gwasanaeth. Mae pob aelod o'r staff yn meddu ar wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chofrestriad â Gofal Cymdeithasol Cymru, a chaiff y rheolwr wybod gan yr adran Adnoddau Dynol pan fydd angen i'r rhain gael eu hadnewyddu. Mae darparwr y gwasanaeth yn hwyluso hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth ar gyfer y staff cymorth, ond mae'r galw am gyrsiau yn uchel. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn mwynhau gweithio mewn gwasanaeth byrdymor gan ei fod yn newid yn barhaus ac yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt feithrin sgiliau newydd. Caiff sesiynau goruchwylio ac arfarniadau eu cynnal yn ôl yr angen, ac mae'r rheolwr yn treulio amser gyda'r staff gofal yn y gwasanaeth a gall y staff gofal ofyn cwestiynau neu wneud awgrymiadau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

Mae prosesau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yng nghartref Breakaway. Gofynnir i'r bobl a'u teuluoedd am adborth yn rheolaidd drwy'r flwyddyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau monitro chwarterol ac yn defnyddio'r adborth a'r canfyddiadau i lywio'r adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r rhain yn nodi cryfderau'r gwasanaeth a'r meysydd lle y gellir gwneud gwaith ychwanegol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/11/2024